Gwybodaeth Pensiwn y Wladwriaeth bwysig i allfudwyr y DU

Os ydych yn bwriadu byw dramor pan ydych yn ymddeol, gallwch dal wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU. Os ydych yn gweithio ac yn ymgartrefu mewn gwlad arall cyn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth gallech hefyd gael eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU pan ydych yn ymddeol a gwneud cais amdano.

Pensiwn y Wladwriaeth y DU

Gwnaethpwyd newidiadau i Bensiwn y Wladwriaeth y DU ar 6 Ebrill 2010. Os ydych dros 50, ac yn nesáu at ymddeoliad neu wedi ymddeol yn ddiweddar efallai bydd angen i chi weithredu.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynigion newydd ar gyfer cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth. O dan y cynigion newydd, o Ragfyr 2018, bydd oedran Pensiwn i ddynion a merched yn dechrau cynyddu i 66 erbyn Ebrill 2020. Bydd hyn yn golygu fod oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yn cynyddu'n fwy cyflym i 65 rhwng Ebrill 2016 a Thachwedd 2018.

Nid yw'r newidiadau a gynigwyd i'r amserlen yn gyfraith eto ac maent dal angen cymeradwyaeth y Senedd.

Cewch wybod mwy am y newidiadau a beth maent yn ei olygu i chi drwy ymweld â www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU byddwch ond yn derbyn y cynnydd arferol blynyddol sy'n gysylltiedig â mynegai os ydych yn byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) neu'r Swistir, neu mewn gwlad ble mae gan y DU gytundeb nawdd cymdeithasol sy'n cynnwys cynyddu pensiynau'r wladwriaeth. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar y Pensiwn y Wladwriaeth y DU i Brydeinwyr sy'n byw dramor drwy ymweld â: www.direct.gov.uk/pensionsabroad <http://www.direct.gov.uk/en/britonslivingabroad/moneyabroad>

Os ydych eisiau cynllunio ymlaen i wneud yn siŵr eich bod yn gwneud y mwyaf o'ch arian ymddeol, mae yna gamau syml gallwch eu cymryd nawr.

CAM UN: Darganfyddwch faint o Bensiwn y Wladwriaeth y DU rydych wedi ei adeiladu hyd yn hyn

I gael y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn mae'n rhaid i chi adeiladu nifer penodol o flynyddoedd o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, a elwir yn 'blynyddoedd cymhwyso'. Mae'r nifer o flynyddoedd cymhwyso rydych ei angen yn dibynnu ar eich oedran:

- mae dynion a merched sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 angen 30 o flynyddoedd cymhwyso i gael Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn.

Os oeddech wedi cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010, ewch i'n gwefan yn www.direct.gov.uk/dyfodolgwell i weld faint o flynyddoedd cymhwyso rydych ei angen.

Mae'r amlinellydd Pensiwn y Wladwriaeth yn declyn syml sy'n dangos i chi faint o Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol efallai ydych wedi ei adeiladu hyd yn hyn a phryd gallwch wneud cais amdano. Gallwch weld hwn drwy fynd i www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

Os ydych eisiau gwybodaeth fwy manwl am eich hawliad Pensiwn y Wladwriaeth y DU gallwch gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth y DU. Gallwch gael eich rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth y DU o'r Gwasanaeth Pensiwn. Am fwy o wybodaeth ewch i www.direct.gov.uk/rhagolwgpensiwn

CAM DAU: Os nad oes gennych Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn y DU, darganfyddwch beth i'w wneud

Peidiwch â phoeni – mae yna ddwy ffordd efallai gallech gynyddu eich hawliad Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol:

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwybodaeth Pensiwn y Wladwriaeth bwysig i alltudwyr y DU (tudalen 2)

- Os oes gennych ŵr, gwraig neu bartner sifil gyda chofnod Yswiriant Gwladol dda, gallech fod â hawl i rywfaint o Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol drwyddynt hwy. Cewch wybod mwy drwy ymweld â www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

NEU

- efallai gallwch brynu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol. Taliadau yw'r rhain gallwch eu gwneud i lenwi bylchau yn eich cofnod ac i adeiladu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth mwy pan ydych yn gwneud cais amdano. Mae yna derfynau amser i dalu y rhain felly gwiriwch sut gall unrhyw gyfyngiadau effeithio arnoch cyn i chi benderfynu os yw'n opsiwn da. Cewch wybod mwy drwy ymweld â www.direct.gov.uk/topupni

Os ydych dal i boeni am eich incwm ymddeol, mae yna ffyrdd eraill i'w wella fel gweithio'n hirach. Cewch wybod mwy yn www.direct.gov.uk/workingpastpensionage

Mae amgylchiadau pawb yn wahanol felly mae'n bwysig iawn i wirio a deall eich opsiynau i gyd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

CAM TRI: Dod o hyd i unrhyw gynlluniau pensiynau preifat, personol neu waith coll

Efallai eich bod wedi talu i mewn i gynlluniau pensiwn am gyfnod byr ac wedi anghofio amdanynt. Gall symiau bychan adio i fyny a gwneud gwahaniaeth mewn ymddeoliad, Mae tua £3 biliwn heb eu hawlio mewn cyfrifon pensiwn. Cewch wybod mwy yn www.direct.gov.uk/olrhainpensiwn

Mae llawer mwy o wybodaeth ar-lein yn www.direct.gov.uk/dyfodolgwell

Gwybodaeth bellach am y Pensiwn y Wladwriaeth y DU i Brydeinwyr sy'n byw dramor

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU pan ydych yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol am y tro cyntaf, ac roeddech yn arfer byw yn y DU a gennych gofnod Yswiriant Gwladol yma, byddwn yn edrych ar eich cofnod am yr amser pryd oeddech yn y DU i weithio allan hawliad (y gyfradd wythnosol o Bensiwn y Wladwriaeth byddwch yn ei dderbyn).

Gall cofnod o'r taliadau Yswiriant Gwladol a/neu breswylfa yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a gwledydd trefniant cytbwys penodol hefyd yn cael ei defnyddio, lle mae'n briodol, i helpu i sefydlu neu wella hawl i Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol y DU.

Dywedwch wrthym os yw eich cyfeiriad yn newid (os ydych yn symud cartref wrth fyw dramor, gadael y DU i fyw dramor, neu ddychwelyd i'r DU o dramor). Mae hyn yn bwysig oherwydd gall effeithio'r gyfradd o'ch Pensiwn y Wladwriaeth y DU.

Gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU am y tro cyntaf wrth fyw dramor

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU pan rydych yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU, bydd rhaid i chi gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn yn y DU, oni bai eich bod yn byw mewn gwlad EEA neu'r Swistir.

Os felly, gall cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU gael ei wneud drwy sefydliad pensiwn:

- yn eich gwlad breswyl; neu
- yn y wlad be roeddech yn gweithio diwethaf (os nad eich gwlad breswyl yw hon).

Mae mwy o gyngor am sut i wneud cais ar gael yn www.dwp.gov.uk/international/benefits/state-pension Fel arall, cysylltwch â ni yn:

The Pension Service
International Pension Centre
Tyneview Park
Newcastle-upon-Tyne
NE98 1BA.

Ffôn: 0191 218 7777 (+44 191 218 7777 o dramor).

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau